OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2016 Rhif 860 (Cy. 217)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Y Bala, Gwynedd) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2016

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *25 Awst 2016* |
| *Yn dod i rym* | *4 Medi 2016* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Dolgellau – Man i'r De o Benbedw (yr A494) ("y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd holl draffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd bod Triathlon y Bala yn cael ei gynnal ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 16A o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Digwyddiadau Arbennig) 1994, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 4 Medi 2016. Ei enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Y Bala, Gwynedd) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2016.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" (*"exempted vehicle")* yw:

(i) unrhyw gerbyd gwasanaethau cyhoeddus;

(ii) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion yr heddlu;

(iii) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddiben y gwasanaeth tân neu'r gwasanaeth ambiwlans;

(iv) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â gwaith ar y ffordd neu oleuadau neu arwyddion traffig neu waith brys i unrhyw garthffos neu i unrhyw brif bibell neu gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan, neu gyfarpar telathrebu yn y darn o'r ffordd o dan sylw, neu mewn unrhyw dir cyfagos;

(v) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio gan un neu ragor o swyddogion awdurdodedig y digwyddiad i gefnogi’r digwyddiad ac am resymau diogelwch y

digwyddiad;

ystyr “y cyfnod cau” *(“closure period”)* yw’r cyfnod hwnnw sy’n dechrau am 09:30 o’r gloch ar 4 Medi 2016 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y darn o’r gefnffordd” *(“the length of the trunk road”)* yw’r darn o gefnffordd yr A494 yn Sir Gwynedd sy’n ymestyn o bwynt 12 o fetrau i’r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd sy'n arwain at Ganolfan Hamdden Penllyn, y Bala tua'r de-orllewin hyd at bwynt 6 metr i'r gogledd-ddwyrain o'i chyffordd â'r ffordd Dosbarth 3 sy'n arwain at Ryd-y-main ger Ysgol Ieuan Gwynedd;

ystyr “personau esempt” (*“exempted persons”*) yw cerddwyr y caniateir iddynt gael mynediad i unrhyw fangre sydd ar y ffordd neu yn gyfagos iddi, neu i unrhyw fangre arall sy'n hygyrch o'r ffordd, ac o’r ffordd yn unig.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiad**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod y cyfnod cau, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt neu bersonau esempt, fynd ar y darn o’r gefnffordd.

**Cymhwyso**

**4.** Ni fydd gwaharddiad erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

**Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am ddiwrnod ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a’r Seilwaith.

Dyddiedig 25 Awst 2016

*Nina Ley*
Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli’r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 c27. Mewnosodwyd adran 16A gan adran 1(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd (Digwyddiadau Arbennig) 1994.Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.